Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru

21 Ionawr 2020

Annwyl Andrew,

**Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood**

Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth atom ar 23 Rhagfyr 2019 cyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft gydag ef ym Mhwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Diwylliant. Roedd y llythyr yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, a'r rhagamcanion ar gyfer perfformiad ariannol ac incwm Pinewood Studios ym mis Tachwedd 2019.

Gwnaethom drafod yr ohebiaeth yn ein cyfarfod ar 6 Ionawr 2020 ac rydym am gael eglurder ar y pwyntiau isod.

Yn ein hadroddiad ar Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, gwnaethom fynegi rhai o'n disgwyliadau ynghylch y £30 miliwn o Wariant Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a'r effaith economaidd gwerth £90 miliwn a ragwelir. Mae'r buddsoddiadau a restrir yn niweddariad diweddaraf y Dirprwy Weinidog yr un fath yn union â'r rhai a restrwyd yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor dros flwyddyn yn ôl.

Mae tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (DGCh) ar 8 Ionawr 2020 yn nodi bod saib yn y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, sy'n esbonio pam mae'r ffigurau hyn yn union yr un fath. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor DGCh ba fuddsoddiad pellach y gellid ei ddisgwyl na thros ba gyfnod. Er enghraifft, a yw'r ffigur o £30 miliwn wedi cael ei fuddsoddi

o'r blaen, yn rhannol, trwy ailgylchu arian a adenillwyd (h.y. gwneud y gwariant gwirioneddol ychydig yn is).

Nodwn hefyd ei bod yn ymddangos bod y ffigur ar gyfer gwariant Cymru a nodwyd yn llythyr y Dirprwy Weinidog wedi cynyddu i £25 miliwn o'r £18 miliwn y cyfeiriodd Swyddogion Llywodraeth Cymru ato mewn tystiolaeth flaenorol. Mae'n ymddangos bod y swm a adenillwyd yn gyffredinol ychydig yn fwy na'r ychydig yn llai na £5 miliwn a ddyfynnwyd i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018.

Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r rhai a roddwyd i Bwyllgor DGCh ar 8 Ionawr 2020, pan ddywedodd y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth:

> *"overall, £25 million of investment for a net £10 million—. So, we invested £15 million, but we've recouped £5 million in terms of receipts. So, a £25 million return on a £10 million investment, we think, is good".*

A allech gadarnhau'r ffigurau hyn a rhoi manylion am yr isod:

- sut mae'r ffigur ar gyfer 'Gwariant Cymru' yn cael ei gyfrifo – h.y. sut y mae wedi cael ei greu – ac a allwch chi nodi hyn fesul llinell a diffinio'r ffigurau £0 a ddangosir ar hyn o bryd (a yw hyn yn adlewyrchu methiant llwyr ynteu a yw'n adlewyrchu ble yn union y mae'r prosiect arni);
- sut yr oedd y ffigurau ar gyfer symiau a adenillwyd neu wariant Cymru yn cymharu ag unrhyw ddisgwyliad pan gytunwyd ar y buddsoddiadau;
- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i symiau pellach gael eu hadennill dros amser o ran achosion unigol, gan gynnwys manylion am hirhoedledd y prosiectau ffilm hyn mewn perthynas ag adennill costau;
- a yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw waith olrhain parhaus ynglŷn â ffigurau Gwariant Cymru;
- y cyd-destun i ragamcanion ariannol ar gyfer y stiwdios, gan gynnwys cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer yr astudiaethau, rhentu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am pam nad yw cytundebau â'r prif denantiaid wedi cael eu cadarnhau eto ar gyfer 2020-21 ymlaen.

Yn fwy cyffredinol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau ar amcanion y stiwdios ar gyfer y dyfodol yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Hydref 2019 y byddai Pinewood yn rhoi'r gorau i ymwneud â'r stiwdios yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2020. Byddai hefyd yn dda pe byddech yn egluro ai prif amcan Llywodraeth Cymru yw i'r stiwdios weithredu ar golled o bosibl yng nghyd-destun unrhyw fuddion ehangach a allai ddeillio o'r stiwdios ynteu i'r stiwdios weithredu fel endid masnachol sy'n gwneud elw.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**